Cais i newid enw Cyngor Cymuned Llanaelhaearn i CC Trefor a Llanaelhaearn.

## 1. Cefndir

Haen isaf o lywodraeth leol yw'r cyngor plwyf/cymuned/tref, felly dylai adlewyrchu'r boblogaeth yna.

Daw enw'r Cynghorau cymuned presennol o'r hen drefn blwyfol (cyngor plwyf) . Yn ein hachos ni y plwyf eglwysig yw Llanaelhaearn.

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ad-drefnodd y system 'plwyfol' i fod yn unedau cymunedol. Ni newidiwyd yr enwau i adlewyrchu'r gymuned leol ym mhobman, a dyma graidd ein cais.

## 2. Rhesymeg newid enw.

Mae eglwys Llanaelhaearn yn dyddio yn ôl i'r chweched ganrif, a phlwyf Llanaelhaearn oedd yr enw i'r Llywodraeth leol o'r 16eg ganrif ymlaen ar ardal eang a gwasgaredig.

Yn ystod y 19eg ganrif bu twf mawr yn y boblogaeth oherwydd dyfodiaid y diwydiant ithfaen a fel canlyniad crëwyd pentref newydd Trefor (1856) yn ngwaelod y plwyf.

Pentref Trefor yw'r mwyaf poblog yn y 'cymuned' er nid yw'r enw yn cael ei arddel yn enw'r Cyngor cymuned newydd. Dyma'r ystadegau :

1. **Etholwyr** 2024 : Trefor 511 Llanaelhaearn 287 (e-bost gan swyddog etholiadol)
2. **Tai annedd** Cyfrifiad 2021 : Trefor 334 Llanaelhaearn 121 (e-bost gan swyddog data)

Dylid nodi bod bod 12 Cynghorydd cymuned, a'r drefn yw bod dau draean – wyth o'r deuddeg – yn cynrychioli pentref Trefor.

## 3. Hanes y cais i newid enw

Yn Medi 2021 derbyniodd y Cyngor Cymuned lythyr oddi wrth drigolion yn Nhrefor yn gofyn am degwch i bentref Trefor. Y cais oedd i newid enw'r Cyngor Cymuned i gynnwys yr ardal i gyd. Trafodwyd y cais mewn cyfarfod ffurfiol o'r Cyngor ar 4/10/2021 a phenderfynwyd bod y cais yn gwbwl rhesymol a bod y cyngor yn ei gefnogi'n unfrydol. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Sir ar y pryd, Aled Wyn Jones, ymgymryd â'r mater.

Ym mis Ionawr 2022 cadarnhaodd Aled bod newid yn bosib, ond bod angen rhoi cynnig gerbron y Cyngor Sir gan gynnig enw newydd. Bro'r Eifl oedd y dewis naturiol, ond roedd yr enw yna newydd ei roi ar y Ward Sirol. Wedi trafodaeth penderfynwyd ar 'Trefor a Llanaelhaearn' – yn y drefn honno i osgoi treiglo !

Yn 2024 ail-gydiodd ein Cynghorydd Sir presennol, Jina Gwyrfai, yn y cais i newid yr enw. Cafodd gyfarwyddyd gan Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Gwynedd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i ganfod barn trigolion lleol. Cytunwyd ar ffurf ymgynghori trwy ofyn am sylwadau yn hytrach na threfnu cyfarfodydd cyhoeddus, costus. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ym Mehefin 2024 cytunodd i weithredu a chynnal ymgynghoriad.

## 4. Ymgynghoriad â'r cyhoedd

21 diwrnod oedd cyfnod yr ymgynghoriad, sef Mehefin 4-25ain.

Bu hysbyseb ar wefan y Cyngor Cymuned, gweplyfrau lleol a hefyd yn y siopau a swyddfa bost yn gofyn am sylwadau ar y bwriad i newid enw'r i 'Cyngor Cymuned Trefor a Llanaelhaearn', sylwadau i'w hanfon ar e-bost neu mewn lythyr at y Clerc neu'r Cynghorydd Sir.

**Un** ateb ysgrifenedig yn unig a gafwyd – yn cefnogi'r newid.

Bu nifer o sylwadau ar lafar yn gefnogol, a nifer o sylwadau 'naratif' ar 'facebook' .

Ni fu gwrthwynebiad i'r bwriad.

## 1. Casgliad

Er i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus fod yn siomedig, nid yw'r Cynghorwyr Cymuned yn credu bod pwrpas holi pellach nac oedi ragor. Cyflwynir y ddogfen hon felly fel ein cais i newid enw ein Cyngor Cymuned fel y nodwyd eisoes, i 'Cyngor Cymuned Trefor a Llanaelhaearn'.

Yn gywir

Clerc.